

KESS 2 and KESS 2 East Bangor team & Well-Being of Future Generations
25.06.2019

Tim Bangor KESS 2 a KESS 2 Dwyrain & Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

How KESS 2 and KESS 2 East Bangor are addressing the Well-being of Future Generations
Goals

Sut mae KESS 2 a KESS 2 Dwyrain Bangor yn rhoi sylw i amcanion Deddf Llesiant
Cenedlaethau'r Dyfodol

Prosperous/Llewyrchus:

- Darparu dogfennau gwybodaeth ar yriant USB yn hytrach nag argraffu, sydd hefyd yn cyfrannu at leihau gwastraff hynny yw, cyfrannu at arbed costau a chynaliadwyedd. Gan fod costau USBs wedi codi, mae angen bod yn fwy darbodus gyda'u dosbarthu ac mae amnest ar USBs nad ydynt yn cael eu defnyddio.
- Anfon cyfarwyddyd ar newidiadau i gostau Teithio a Chynhaliadwyedd fel e-bost - yn y dyfodol gellir anfon y wybodaeth ddiweddaraf fel cyswllt yn hytrach nag atodiad - felly bydd llai o demtasiwn i argraffu, gan felly sefydlu'r broses hon yn ein dull o gyfathrebu. Defnyddiwch y tudalennau cyfarwyddyd cyn gynted ag y byddant ar gael.
- Rhestr o ddeunyddiau marchnata a chyhoeddusrwydd – er mwyn monitro stociau a chadw golwg ar yr hyn a anfonwyd at bartneriaid. Mae partneriaid yn ymwneud â'r dull gweithio hwn.
- Hyrwyddo prosiectau KESS 2 a KESS 2 Dwyrain, y cwmni a'r cyfranogwyr drwy astudiaethau achos, trydaru ac acolâdau – yn arwain at effaith gynyddol wrth i agweddau ar y prosiectau KESS 2 a KESS 2 Dwyrain gyrraedd cynulleidfa ehangach e.e. creu mwy o ddiddordeb a hyder yn y prosiect cyfan.

Resilient/Cydnerth:

- Mae lleihau risg yn cynyddu hyder, e.e., gweithredu rhywbeth i gefnogi arfer gwell, fel gweithdrefn caffael.
- Cyfarwyddiadau bwrdd gwaith - fel darpariaeth wrth gefn pe na bai aelod staff allweddol ar gael (fel dogfen .pdf mewn ffolder a rennir), e.e. Cyllid, Marchnata a Chyhoeddusrwydd, etc.
- Adolygu prosesau yn unol â gofynion newydd y RhDDC – yn mynd ymlaen.

- Hyrwyddo'r defnydd o nwyddau a phrosesau carbon isel, e.e. defnyddio'r mecanwaith o dri o hen faneri KESS i greu baneri newydd ar gyfer prosiectau KESS 2 a KESS 2 Dwyrain.
- Sganio a chasglu dogfennau fesul cam yn rheolaidd drwy gydol y prosiect. Mae'r broses hon yn helpu i dargedu unrhyw ddata sy'n absennol, yn ogystal ag archifo a chadw data er mwyn sicrhau bod yr holl ddata yn cael ei storio'n electronig mewn modd diogel fel bod copïau wrth gefn dibynadwy ar gael os bydd unrhyw beth yn mynd ar goll neu'n cael ei ddifrodi mewn tân.

Healthier/Iachach:

- Yfed rhagor o ddŵr - i gadw'n iach.
- Anogir y tîm i fynychu sesiynau Ymwybyddiaeth Ofalgar a Tai Chi amser cinio bob wythnos – parhaus.
- Rhyngweithio cymdeithasol mewn digwyddiadau a gweithdai - helpu i adeiladu hyder a chreu undod mewn tîm. Creu cysylltiadau a dod i adnabod pobl.
- Ymwybyddiaeth o'r cyfnodau prysur wrth drefnu, e.e. archwiliadau, arholiadau a chyfnodau gwyliau.

More Equal/Mwy cyfartal:

- Cefnogi cyfranogwyr KESS 2 a KESS 2 Dwyrain sy'n nodi ar ffurflenni cychwynnol bod ganddynt anghenion ychwanegol er enghraifft, eu helpu i lenwi taflenni amser a ffurflenni eraill.
- Parhau i gefnogi cyfranogwyr KESS 2 a KESS 2 Dwyrain ar absenoldeb mamolaeth/tadolaeth wrth iddynt astudio. Edrych ar ddatblygu hyn yn bolisi mamolaeth/tadolaeth - i gynnal cysondeb polisi yn gyffredinol.
- Gofal plant - mae'n gyllideb y gellir ei defnyddio i gefnogi rhieni yn ystod eu hastudiaethau.
- Nodi a bodloni anghenion hyfforddiant ar gyfer cyfranogwyr KESS 2 a KESS 2 Dwyrain drwy PSDA KESS 2 a KESS 2 Dwyrain.
- Cefnogi cyfranogwyr KESS 2 a KESS 2 Dwyrain gyda chyflyrau iechyd sy'n cyfyngu ar eu gallu i weithio.
- Cefnogi aelodau o'r tîm drwy gyfnodau o newid.

Cohesive Community/Cymunedau cydlynol:

- Dod â Chyfranogwyr, phartneriaid Academiaidd a Chwmnïau at ei gilydd mewn digwyddiadau a gweithdai.
- Ysgolion Graddedigion KESS 2 a KESS 2 Dwyrain ac E.I.D.S. rhyngwladol a datblygu cynllun Cyn-fyfyrywyr KESS 2 a KESS 2 Dwyrain.

- Adeiladu cymuned cyn-fyfirwyr KESS 2 a KESS 2 Dwyrain gydlynol, dathlu llwyddiannau / hyrwyddo llwyddiant myfirwyr, e.e. gan gynnwys astudiaeth achos o brosiectau KESS 2 / KESS 2 Dwyrain a llun pan fydd y cyfranogwr yn cwblhau ac yn dyfarnu ei PhD / Gradd Meistr.
- Mae rhannu cludiant yn annog myfirwyr i ddod i adnabod ei gilydd.
- 'Diwrnod Cwrdd i Ffwrdd' – cynllunio agweddau ar KESS 2 Dwyrain fel prosiect ar wahân.
- KESS 2 Dwyrain yn dod â Gorllewin a Dwyrain Cymru at ei gilydd.
- KESS 2 a KESS 2 Dwyrain yn cael eu gosod yng nghyd-destun ehangach yr Ysgol Ddoethurol.

Thriving Culture/ Language/Diwylliant ac Iaith sy'n ffynnu:

- Cefnogi staff a chyfranogwyr KESS 2 a KESS 2 Dwyrain i ddysgu Cymraeg - yn awr ac yn barhaus.
- Rhannu dogfennau dwyieithog gyda phartneriaid KESS 2 / KESS 2 Dwyrain - cyfieithu ar gyfer partneriaid sefydliadau addysg uwch a darparu deunydd dwyieithog ar gais. Tynnu sylw at unrhyw fylchau (os sylwir ar rai)
- Mae E.I.D.S. yn gyfle i rannu diwyllianau yn rhyngwladol gyda Sweden, Portiwgal, Gwlad Belg a'r Weriniaeth Tsiec. Cafodd diwylliant Cymru ei hyrwyddo a'i ddathlu drwy gynnal EIDS yng Nghymru yn 2017.

Globally Responsible/Cyfrifoldeb byd-eang:

- Projectau KESS 2 a KESS 2 Dwyrain sy'n lleihau ein hól troed carbon trwy ddal carbon a lleihau carbon.
- Projectau KESS 2 a KESS 2 Dwyrain sy'n lleihau'r methan a gynhyrchir e.e. projectau dal methan ar gyfer biodanwydd/bionwy a phrojectau eraill cysylltiedig ag amaethyddiaeth a garddwriaeth.
- Astudiaethau achos sy'n dangos effaith
- Tîm KESS 2 wedi cwblhau hyfforddiant RhDDC; ymdrinnir â chydymffurfiaeth, er enghraifft, drwy ddefnyddio *OneDrive* ar gyfer trosglwyddo dogfennau.
- Codi ymwybyddiaeth ynglŷn â pholisi ac ymarferion Cynaliadwyedd ar gyfer holl ddigwyddiadau KESS 2 a KESS 2 Dwyrain.
- Cymhelliant rhannu cludiant
- Mae cofnodi data yn ddi-bapur trwy *Skills Forge* wedi annog canfod ffyrdd eraill o leihau'r defnydd o bapur ac inc mewn dogfennau eraill, fel hwn, sydd wedi ei argraffu ar gyfer ei ddosbarthu mewn cyfarfodydd tîm. Gall Cyflwyniad i *OneDrive* helpu gyda rhannu a dosbarthu nodiadau ar gyfer cyfarfodydd.

How KESS 2 and KESS 2 East Bangor are addressing the Five Ways of Working Sut mae KESS 2 a KESS 2 Dwyrain Bangor yn rhoi sylw i'r Pum Ffordd o Weithio

Long term/Hir dymor:

- Bydd unrhyw beth sydd raid ei wneud ddim yn newid yn ystod oes gweithredu KESS 2 a KESS 2 Dwyrain e.e. baneri, gwefan. Mae cadw rhestr stoc yn cefnogi'r gwaith o fonitro'r hyn sydd ar gael i bartneriaid, yr hyn maent yn ei dderbyn a'r budd iddynt.
- Amnest USB - annog defnydd parhaus

Prevention/Atal:

- Hyfforddir y tîm i fod yn wiliadwrus ac mae hynny'n arwain at arfer da.
- Data wrth gefn a'r wefan
- Skills Forge – gwerthfawr wrth ddiogelu gwybodaeth gyfrinachol.
- Trosglwyddo data yn ddiogel, drwy *OneDrive* (sy'n cydymffurfio â'r RhDDC).

Integration/Intigreiddio:

- Rhannu'r hyn a nodwyd fel arfer da ar draws projectau eraill.
- Mae partneriaid wedi bod yn rhannu projectau KESS 2 a KESS 2 Dwyrain i'w rhoi ar y wefan.
- Cafodd partneriaid sefydliadau addysg uwch KESS 2 a KESS 2 Dwyrain a'r holl bartion eu hintegreiddio trwy Skills Forge, mae yna'r fantais ychwanegol o arbed papur.
- Sleidiau cynefino a gwybodaeth arall yn cael ei rhannu drwy'r wefan

Collaboration/Cydweithio:

- Arferion gweithio ar draws bartneriaid KESS 2 a KESS 2 Dwyrain - mae hyn yn cynnwys ymwneud â phartneriaid KESS 2 a KESS 2 Dwyrain.
- Storiâu am gyfranogwyr KESS 2 a KESS 2 Dwyrain yn cael eu cyhoeddi'n helaeth drwy'r wefan
- Cydweithio yn deillio o bartneriaid a gweithgareddau rhyngwladol EIDS
- Cydweithio effeithiol i gyflawni ail-broffilio cyllidebau, dyraniadau a staffio KESS 2 a KESS 2 Dwyrain.
- Gweithio gyda lleoliadau digwyddiadau i greu digwyddiadau cynaliadwy.

Involvement/Cynnwys:

- Gwobr Cynaliadwyedd yn Nigwyddiad Blynyddol KESS 2 a KESS 2 Dwyrain.

- Hyfforddiant CCT i bob un o'n partneriaid sefydliadau addysg uwch sy'n gweithio gyda'r Lab Cynaliadwyedd
- Yr holl bartneriaid sefydliadau addysg uwch a'u timau yn gwneud ceisiadau gyda'i gilydd
- Defnyddio fideo-gynadledda a thelegynadledda gyda phartneriaid sefydliadau addysg uwch neu fudd-ddeiliaid lle bynnag bo hyn yn briodol. Mae hyn yn chwarae rôl hanfodol wrth gyfathrebu gyda phartneriaid drwy Gymru.
- Cysylltu astudiaethau achos â'r saith amcan WBF; defnyddio'r codio lliw a ddefnyddiwyd gan y 'bêl glan môr' WBF mewn astudiaethau achos i dynnu sylw at yr effaith y mae'r projectau hyn yn ei chael ar integreiddio dulliau cynaliadwy o weithio.

Details of further action required:

Manylion am gamau gweithredu pellach sydd eu hangen:

- Parhaus: Penderfynu'r hyn rydym angen ei gofnodi; mae fideo gynadledda yn dod yn bwysig ond mae cyfarfodydd wyneb yn wyneb yn bwysig hefyd. Mae'n rhaid cynllunio er mwyn nodi a chynllunio'r cyfleoedd hyn.

Support required from Sustainability Lab:

Cefnogaeth sydd ei hangen gan y Lab Cynaliadwyedd:

- Mae'r Lab Cynaliadwyedd eisiau ymestyn yr arfer da hwn trwy'r Ysgol Ddoethurol.
- Mae'r Lab Cynaliadwyedd yn awr yn cynnig yr hyfforddiant a wneir gyda KESS 2 a KESS 2 Dwyrain i'r holl fyfyrwyr PhD ym Mhrifysgol Bangor